Nursing & Midwifery Council

# Trosolwg o'n Hadroddiad Blynyddol a'n Hadroddiad Blynyddol ar Addasrwydd i Ymarfer

1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017



# Ystadegau addasrwydd i ymarfer allweddol
2016-2017

**1%**
Codwyd pryderon yn erbyn llai nag 1 y cant o nyrsys a bydwragedd cofrestredig.

**5476**
Cawsom 5476 o atgyfeiriadau newydd.

**60%**
Gwnaethom gau 60 y cant o achosion ar gamau cyntaf addasrwydd i ymarfer.

**705**
Cyflwynwyd 705 o orchmynion interim.

**91%**
Cyflwynwyd 91 y cant o orchmynion interim o fewn 28 diwrnod i agor yr achos.

**78%**
Cafodd 78 y cant o achosion addasrwydd i ymarfer eu cau o fewn 15 mis i'w hagor.

**1199**
Cyflwynwyd 1199 o sancsiynau.



# Ein gweithgarwch yn 2016–2017

## Ein cofrestr

Ni yw'r rheoleiddiwr proffesiynol mwyaf yn y DU. Ar ddiwedd mis Mawrth 2017, roedd mwy na 690,000 o nyrsys a bydwragedd cofrestredig, sy'n golygu bod gennym y gofrestr broffesiynol fwyaf yn y DU.

Ym mis Mehefin 2016, gwnaethom gyflwyno opsiwn i nyrsys a bydwragedd dalu eu ffi flynyddol drwy randaliadau chwarterol, gan fod adborth wedi dangos bod y rhan fwyaf ohonynt am dalu drwy ddulliau mwy hyblyg. Erbyn 31 Mawrth 2017, roedd mwy na 53,000 o nyrsys a bydwragedd wedi manteisio ar y ffordd hon o ledaenu cost cofrestru.

Roedd ein perfformiad yn gadarnhaol drwy gydol y flwyddyn, gan gwblhau 98.2 y cant o geisiadau i gofrestru o'r DU o fewn deg diwrnod a 94 y cant o geisiadau o'r UE/tramor o fewn 68 diwrnod.

Gwnaethom hefyd gyflwyno dwy ganolfan brawf newydd lle y gall nyrsys a bydwragedd sydd wedi cael hyfforddiant y tu allan i'r AEE sefyll y prawf cymhwysedd.

## Ailddilysu

Mae blwyddyn gyntaf ailddilysu wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Mae mwy na 200,000 o nyrsys a bydwragedd wedi cwblhau'r broses ers iddi gael ei chyflwyno ym mis Ebrill 2016. Mae'r rheini sydd wedi ailddilysu yn dweud bod y broses yn syml, yn ddidrafferth ac yn fuddiol.

Rydym bellach wedi cyhoeddi **ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar ailddilysu** ochr yn ochr â chanfyddiadau cynnar o **werthusiad tair blynedd annibynnol**.

# Addysg

Arweiniodd yr Athro Y Fonesig Jill MacLeod Clark, Athro Emeritws ym Mhrifysgol Southampton a Chadeirydd Panel Ymchwil Academaidd Clinigol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR), ein gwaith i ddatblygu safonau addysg cyn cofrestru newydd ar gyfer nyrsys. Gwnaethom ymgysylltu'n eang â nyrsys, addysgwyr ac aelodau o'r cyhoedd er mwyn llywio ein penderfyniadau.

Rydym bellach yn ymgynghori ar y safonau drafft hyn, ochr yn ochr â **newidiadau arfaethedig i'n fframwaith addysg**, sy'n pennu'r gofynion y mae'n rhaid i bob sefydliad addysg cymeradwy (SACau) eu bodloni er mwyn darparu ein rhaglenni cymeradwy.

Rydym hefyd wedi dechrau ar waith ymgysylltu cynnar cyn datblygu safonau addysg newydd ar gyfer bydwraig y dyfodol. Yr Athro Mary Renfrew, Deon Cyswllt yn Ysgol Nyrsio a Gwyddorau Iechyd Prifysgol Dundee sy'n arwain y gwaith hwn. Rydym eisoes wedi dechrau casglu barn bydwragedd, addysgwyr, myfyrwyr, merched a'u teuluoedd er mwyn helpu i lywio'r gwaith hwn a bydd hyn yn parhau dros y misoedd nesaf.

# Nyrsys cyswllt

Ym mis Ionawr 2017 gwnaethom gytuno i gais y Llywodraeth i fod yn rheoleiddiwr ar gyfer proffesiwn newydd, sef nyrsys cyswllt.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio'n agos gyda Health Education England a'r 35 safle prawf sydd eisoes yn darparu hyfforddiant i'r 2,000 o nyrsys cyswllt, er mwyn datblygu safonau hyfedredd ar gyfer y rôl newydd.

Rydym yn rhagweld y byddwn yn agor ein cofrestr i nyrsys cyswllt yn 2019.

# Newidiadau i'n deddfwriaeth bydwreigiaeth

Gwnaethom weithio'n agos gyda'r Adran Iechyd i foderneiddio rheoleiddio trefniadau bydwreigiaeth drwy ddileu goruchwylio bydwragedd o'n deddfwriaeth. Daeth y newid hwn i rym ar 31 Mawrth 2017. Ynghyd â'r Prif Swyddogion Nyrsio ac arweinwyr ym maes bydwreigiaeth, gwnaethom helpu i sicrhau trosglwyddiad didor i'r trefniadau goruchwylio clinigol newydd ar gyfer bydwragedd.

# Newidiadau i'n deddfwriaeth addasrwydd i ymarfer

Cytunodd y Llywodraeth i'n cais i wneud newidiadau i'n deddfwriaeth addasrwydd i ymarfer, gan ymhelaethu ar sut a ble y gallwn drefnu a chlywed achosion. Daeth rhai o'r newidiadau hyn i rym ym mis Mawrth 2017.

Bydd rhagor o newidiadau yn rhoi pwerau newydd i archwilwyr achos gyflwyno rhybuddion, cytuno i ymgymeriadau, a rhoi cyngor. Bydd y newid hwn yn ein galluogi i gwblhau achosion llai difrifol heb fod angen gwrandawiad llawn.

# Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr

Gwnaethom greu'r **Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr** er mwyn cynghori cyflogwyr sy'n ystyried gwneud atgyfeiriad yn erbyn nyrs neu fydwraig.

Cafodd y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr tua 2,000 o alwadau yn 2016-2017. Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr hefyd wedi cyfarfod â phob un o'r 279 o ymddiriedolaethau a byrddau'r GIG ym mhob un o'r pedair gwlad, ac wedi ehangu'r gwasanaeth i gynnwys dros 20 o ddarparwyr gofal iechyd mwyaf y sector annibynnol yn y DU.

# Hyder yn ein gwaith

Rydym wedi gweld hyder cynyddol ynom ni ac yn ein gwaith. Ym mis Rhagfyr 2016 cawsom ein **hadolygiad gorau erioed** gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, y sefydliad sy'n goruchwylio ein gwaith.



Nursing & Midwifery Council

23 Portland Place, London W1B 1PZ

T +44 20 7637 7181 F +44 20 7436 2924

**www.nmc.org.uk**

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth dros
Gymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon.

Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr
(1091434) ac yn yr Alban (SC038362).